# CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

## SWYDD DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Rheolwr Prosiectau Economaidd |
| **Rhif y Swydd:** | HRP0219 |
| **Cod Gwerthuso Swydd:** | HAYRGD103 |
| **Gwasanaeth:** | Datblygu Economaidd ac Adfywio |
| **Lleoliad Canolfan Waith:** | Neaudd Y Sir, Llandrindod |

(Swydd gweithiwr hyblyg yw hon felly mae'r Cyngor yn cynnig y cyfle i weithio mewn modd ystwyth gan gynnwys gweithio o adref.)

| | |
|---|---|
| **Graddfa:** | Graddfa 10<br>Pwynt 27 i Bwynt 29<br>£33,820 i £35,411 y flwyddyn ar gyfartaledd<br>£17.53 i £18.35 yr awr |
| **Oriau a gontractiwyd:** | 29.6 awr, Cyfnod penodol tan 31/03/2025 |
| **Atebol i:** | Rheolwr Cyflenwi'r Rhaglen (Cefnogi Cymunedau) |
| **Cyfrifoldeb dros:** | Swyddog Cefnogi Prosiectau Economaidd (1-2) |

## Crynodeb

### Am y rôl:

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn rheoli prosiect ar gyfer nifer o brosiectau economaidd. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau, dogfennaeth a chyfarwyddyd i dimau prosiect drwy gydol oes y prosiect, gan sicrhau:

- Bod yr holl weithdrefnau sefydliadol yn cael eu dilyn.
- Bod nodau yn cael eu dynodi a'u diwallu,
- Bod buddion yn cael eu gwireddu o gaffael hyd at weithredu

Byddwch chi hefyd yn darparu adrodd yn ôl ar reoli, sy'n monitro cynnydd ac effaith.

### Amdanoch chi:

Bydd gennych:

- Gwybodaeth ymarferol, dangosol, profiad a dealltwriaeth am holl agweddau rheoli prosiect. Dealltwriaeth am lywodraeth leol, cyd-destun

gwleidyddol cenedlaethol y mae'n gweithredu oddi fewn iddo a'r heriau a chyfleoedd cyfredol.

- Profiad o ddarparu arweinyddiaeth, cyfarwyddyd a chefnogaeth i aelodau etholedig, cydweithwyr a phartneriaid i'w galluogi i wneud penderfyniad effeithiol a'r safonau uchaf o lywodraethiant corfforaethol.
- Profiad o weithio ag amrywiaeth o randdeiliaid a phartneriaid a chynllunio a chyflenwi digwyddiadau/gweithgareddau sy'n ymgysylltu â'r gymuned.
- Profiad o ddatblygu trefniadau partneriaeth ar draws y Cyngor ac â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i feithrin cydweithio effeithiol i wella deilliannau.
- Sgiliau ardderchog o ran arwain, sefydliadol, cyfathrebu a negodi.
- Cymhwyster proffesiynol priodol mewn rheoli prosiect neu brofiad perthnasol blaenorol.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud:**

Byddwch chi'n:

- Arwain, rheoli, ysgogi a sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflenwi'n effeithiol, effeithlon a bod cerrig milltir allweddol yn cael eu bodloni i sicrhau cyflenwi'r prosiect yn effeithlon ac effeithiol gan gydymffurfio â'r Cynllun Darparu Prosiect.
- Rheoli cyllideb y prosiectau, monitro'r gwariant a'r costau yn erbyn buddion sy'n cael eu gwireddu wrth i'r prosiect fynd rhagddo.
- Rheoli cyfathrebiadau ac ymgysylltu actif gyda staff a rhanddeiliaid i gyflenwi'r prosiectau'n effeithiol.
- Datblygu trefniadau partneriaeth ar draws y Cyngor ac â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i feithrin cydweithio effeithiol a gwella deilliannau.
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau am statws y prosiect er mwyn darparu gwybodaeth gywir a chlir i fwrdd y prosiect/ partneriaeth leol, rhanddeiliaid, aelodau etholedig, penaethiaid gwasanaethau ac uwch reolwyr.
- Cynnal gwybodaeth i'r funud am ymarfer gorau wrth ddarparu rheoli prosiect a lledaenu gwybodaeth a gweithredu arferion da.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl, cysylltwch:
Louise Nicholson (Rheolwr Cyflenwi'r Rhaglen – Cefnogi Cymunedau)
E-bost: louise.nicholson@powys.gov.uk.

**Ymhlith eich cyfrifoldebau bydd:**

1. Rheoli prosiect ar gyfer nifer o brosiectau'r economi gan gynnwys cynhyrchu cynlluniau, dogfennaeth a chanllawiau i dimau'r prosiect hyn yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau, dogfennaeth a chyfarwyddyd i dimau prosiect drwy gydol oes y prosiect, gan sicrhau bod holl weithdrefnau sefydliadol yn cael eu

dilyn; nodau yn cael eu dynodi a'u diwallu, buddion yn cael eu gwireddu o gaffael hyd at weithredu mentrau Adfywio Economaidd newydd.

2. Darparu rheolaeth gydnerth o ran adrodd/ monitro cynnydd/ effaith, cynhyrchu adroddiadau.

3. Arwain, rheoli, ysgogi a sicrhau fod y prosiect yn cael ei gyflewni'n effeithiol ac yn effeithlon a bod cerrig milltir allweddol yn cael eu bodloni i sicrhau cyflenwi'r prosiect yn effeithlon ac effeithiol gan gydymffurfio â'r Cynllun Darparu Prosiect.

4. Bod yn rhagweithiol wrth fonitro cynnydd cyffredinol y prosiect, datrys problemau a rhoi cychwyn ar gamau unioni fel sy'n briodol.

5. Bod yn atebol am reoli'r prosiect gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio a'u lleoli'n briodol.

6. Rheoli cyllideb y prosiectau, monitro'r gwariant a'r costau yn erbyn buddion sy'n cael eu gwireddu wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

7. Datblygu trefniadau partneriaeth ar draws y Cyngor ac â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i feithrin cydweithio effeithiol a gwella deilliannau.

8. Rheoli cyfathrebiadau ac ymgysylltu rhagweithiol gyda staff a rhanddeiliaid i gyflenwi'r prosiectau'n effeithiol.

9. Adrodd am gynnydd y prosiectau i'r Grŵp Cyflawni Economaidd ac Amgylcheddol ac adrannau Llywodraeth DU a phartneriaid eraill neu gyrff ariannu fel sy'n briodol, fel y'u gosodir allan o dan gytundebau ariannu a sicrhau bod holl amodau ar gyfer adrodd yn cael eu dilyn i wneud y mwyaf o fuddion ariannu.

10. Rheoli cyfathrebiadau'r prosiect a sicrhau bod holl agweddau'r prosiectau yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol i'r holl randdeiliaid perthnasol, yn unol â chynllun cyfathrebiadau'r prosiect.

11. Paratoi a chyflwyno adroddiadau am statws y prosiect er mwyn darparu gwybodaeth gywir a chlir i fwrdd y prosiect / partneriaeth leol, rhanddeiliaid, aelodau etholedig, penaethiaid gwasanaethau ac uwch reolwyr.

12. Gweithio â gwerthuswr allanol i ymgymryd â gwerthuso ôl-weithredu ac adrodd ar hyn i fwrdd y prosiect / partneriaeth leol a rhanddeiliaid.

13. Cynnal gwybodaeth i'r funud am arferion gorau o ran darparu reolaeth o'r prosiectau a lledaenu gwybodaeth a gweithredu arferion da.

## Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Does dim gofyniad am Wiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

### Datganiad Iechyd a Diogelwch:

Mynd i'r afael â pholisïau a threfniadau iechyd a diogelwch mewn modd rhagweithiol i sicrhau bod safon uchel o arferion gwaith yn cael eu cynnal.

### Datganiad Cydraddoldebau:

Cefnogi a gweithredu'n rhagweithiol, egwyddorion ac arferion cyfleoedd cyfartal fel y'u gosodir ym Mholisi Cydraddoldebau'r Cyngor.

### Gofynion y Gymraeg

Dylai ymgeiswyr fod yn gallu ynganu enwau personol ac enwau lleoedd Cymraeg yn gywir a gallu rhoi / ymateb i gyfarchion sylfaenol dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, neu fod yn barod i ddysgu o fewn cyfnod rhesymol.

**SYLWCH;**

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

# MANYLEB Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlynol yn eich cais.

## Profiad

### Hanfodol

- Gwybodaeth ymarferol a dangosol, profiad a dealltwriaeth am bob agwedd o reoli prosiect.
- Profiad o ddatblygu trefniadau partneriaeth ar draws y Cyngor ac â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i feithrin cydweithio effeithiol a gwella deilliannau.
- Profiad o ddarparu arweinyddiaeth, cyfarwyddyd, a chefnogaeth i aelodau etholedig, cydweithwyr a phartneriaid i alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud yn effeithiol a'r safonau uchaf o lywodraethiant corfforaethol.
- Profiad o weithio ag amrywiaeth o randdeiliaid a phartneriaid a chynllunio a chyflenwi digwyddiadau/gweithgareddau ymgysylltu cymunedol.
- Profiad o reoli llinell.

## Gwybodaeth

### Hanfodol

- Dealltwriaeth o lywodraeth leol, y cyd-destun gwleidyddol cenedlaethol y mae'n gweithredu oddi fewn iddo a'r heriau a chyfleoedd cyfredol.
- Dealltwriaeth o sut y gall diogelu gael ei gefnogi drwy ddatblygu rhaglen a rheoli prosiectau.

### Dymunol

- Dealltwriaeth o broses Model Busnes 5 Achos Trysorlys EF.

## Cymwysterau a Hyfforddiant

### Hanfodol

- Addysg at lefel raddedig neu brofiad cyfwerth
- Cymhwyster proffesiynol priodol mewn rheoli prosiectau neu brofiad perthnasol blaenorol

### Dymunol

- Aelod o gorff proffesiynol perthnasol

## Rhinweddau Personol

### Hanfodol

- Trefnus iawn, gyda'r gallu i flaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith prysur.
- Sgiliau arwain ardderchog sy'n annog ymrwymiad oddi wrth eraill.
- Sgiliau ardderchog o ran cyfathrebu a negodi.

# Sgiliau

### Hanfodol

- Gallu perthnasu â ac ennill hyder, ymddiriedaeth a pharch aelodau, partneriaid a'r gymuned ehangach.
- Gallu dylanwadu ar ddeilliannau drwy ymresymu, perswâd a doethineb.
- Gallu dadansoddi a lledaenu gwybodaeth er mwyn pennu opsiynau.
- Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol a gofynion trwm wrth gadw at derfynau amser tynn.
- Gallu dadansoddi materion, patrymau a thueddiadau dros amser a defnyddio hyn wrth gynllunio a chyflenwi prosiectau.
- Meddu ar ddealltwriaeth glir.
- Yr angen am gyfrinachedd.
- Gallu defnyddio barn a disgresiwn.
- Gallu ymgysylltu a pherthnasu â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, cyrff eraill y sector cyhoeddus a sefydliadau eraill mewn modd sydd o fudd i'r prosiect ac sy'n darparu canlyniadau.
- Gallu cyflenwi nodau ac amcanion y prosiect.
- Gallu defnyddio cyfrifiadur gydag amrywiaeth sylfaenol o apiau meddalwedd MS Office.

# Gofynion eraill

### Hanfodol

- Gallu mynychu cyfarfodydd gyda'r nos a gweithio y tu allan i oriau swyddfa safonol.
- Gallu gweithio mewn modd ystwyth.
- Meddu ar drwydded yrru gyflawn a glân a mynediad at gerbyd.

Dylai ymgeiswyr fod yn gallu ynganu enwau personol ac enwau lleoedd Cymraeg yn gywir a gallu rhoi / ymateb i gyfarchion sylfaenol dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, neu fod yn barod i ddysgu o fewn cyfnod rhesymol.

**Rheolwr recriwtio:** Louise Nicholson
Mawrth 2023

**Ein gwerthoedd:**

**Proffesiynol**
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

**Cadarnhaol**
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

**Blaengar**
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

**Agored**
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

**Cydweithiol**
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

## Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

**Gair i gall:**

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

## Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 07/09/2023.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 08/09/2023. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 21/09/2023.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.